

Gellir gweld y Fursen Werdd o ganol Mehefin gan ddiwedd Medi ger dyfroedd llonydd gyda llystyfiant tal ar y glannau, yn enwedig brwyn a hesg.



PROFIADAU O FYWYD GWYLLT Y NOS

Mae'r parc yn lle gwych i grwydro yn ystod y dydd, gwneud pob math o bethau a chael hwyl beth bynnag fo'r tywydd. Ond, os byddwch yn aros gyda ni dros nos, mae yna fyd hollol newydd o antur yn agor o'ch blaen wrth i anifeiliaid y nos ddod allan. Trochwch eich hunan a'ch teulu yn ngolwg a swm natur y nos a chael profiad o fod yn dditectif anifeiliaid y byddwch yn ei gofio am byth.

Mae'r Bannau'n gartref i beth wmbredd o adar, pryfed, amffibiaid a mamaliaid sy'n caru'r tywyllwch, diolch i amrywiaeth ein cynefinoedd. Mae yna gymaint o lefydd i ganfod beth sy'n digwydd yn ein parc yn ystod y nos - dyma ddim ond ychydig i chi i ddechrau.

2. Cuddfan adar Llangasty Tal-y-llyn

Ewch i guddfan adar Llangasty Tal-y-llyn ar lannau Llyn Llangors ar hwyrddydd haf a chewch glywed telor y cyrs ac adar eraill yn galw ar draws y dŵr. Daw telor y cyrs yno yn yr haf o Affrica ac mae'r gwelyau cyrs sydd o amgylch y llyn yn llawn o'u cân.

Cewch brofiad o natur ar ei gorau wrth wyluo adar y dŵr allan ar y llyn, gwahanol rywogaethau o hwyaid, efallai gip ar ddyfrgi neu ddau a chlywed tylluanod yn galw. Cadwch lygad ar agor am ddylluan, maen nhw'n swil ac yn anodd eu gweld, ond efallai y byddwch yn lwcus a chael cip ar un allan yn hela.

Ar nosweithiau tawel, braf, o haf bydd Gweision Neidr ysblennydd yn hela pryfed bychain yng nghanol y blodau gwyllt sydd ar lannau'r llyn. Gwrandewch yn ofalus ac efallai y byddwch yn clywed eu hadenydd yn curo wrth iddyn nhw wibio heibio.

GWYCH AM:

wyluo adar gydol y flwyddyn,
gweision neidr, elyrch ac efallai hyd
yn oed ddyfrgi

PENTREF AGOSAF:

Llangors

I GANFOD RHAGOR:

www.breconbeacons.org/poi/town-village-llangorse

BANNAU BRYCHEINIOG

EIN PARC CENEDLAETHOL

Gellir gweld dyfrgwn yn ac o amgylch y rhan fwyaf o ddyfrffyrdd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r dyfrgwn anifail gynhenid swil, yn gadael ei wâl ar fachlud a chodiad haul.

Llawer o bethau hwyliog eraill i'w gwneud yng nghuddfan adar Llangasty Tal-y-llyn

- o Mae Llangasty Tal-y-llyn yn lle gwych i ddilyn llwybr planhigion naturiol, chwilio am flodau gwyllt – fe welwch amrywiaeth enfawr o blanhigion yn y mosaig o gynefinoedd gwlyb a sych sydd o gwmpas y llyn.
- o Mynd mewn cwch - llogwch gwch rhwyfo bychan a mynd i wyllo adar gwyllt ar y llyn.
- o Ewch i chwilio am y coed derw enfawr ger y guddfan adar, wedi'u plannu, mae'n debyg, pan oedd y Frenhines Elisabeth I ar yr orsedd tua 450 o flynyddoedd yn ôl.

DEWCH YN DDITECTIF ANIFEILIAID

Mae anifeiliaid yn gadael llawer o arwyddion ar eu hôl a gallai hynny eich helpu i'w canfod. Ôl traed, pantiau yn y ddaear ac ar laswellt, a'u baw! Er enghraifft, wydech chi fod arogl melyn ar faw dyfrgi, fel gwair newydd neu de jasmin?

Byddwch yn barod i chwilio ychydig o bethau syml sy'n dangos arwyddion o anifeiliaid... Paratowch eich offer ditectif mamaliaid eich hunan – y cyfan y byddwch ei angen i ddechrau arni yw chwyddwydr, llyfr nodiadau a siart ôl traed.



Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Lleoliadau Bywyd Gwyllt

1. Llyn Llangors
2. Cuddfan adar Llangasty Tal-y-llyn
3. Canolfan ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
4. Promenâd Aberhonddu
5. Cuddfan Adar Cronfa Ddwir Talybont

